



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Crynodeb o Ymatebion yn dilyn yr Ymgynghoriad ar y Cynllun i Ddileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD)

Rhagfyr 2022

1.0 Cyflwyniad

Dymuna Llywodraeth Cymru a Swyddfa Prif Swyddog Milfeddygol Cymru ddiolch i bawb am gyflwyno'u barn ac ymateb i'r cwestiynau yn y Cynllun i Ddileu BVD. Isod, crynhoir ein hymatebion i'r pryderon allweddol a grybwyllwyd.

2.0 Dileu Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD)

Ar sail y crynodeb, mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod BVD yn broblem fawr i'r diwydiant ffermio gwartheg yng Nghymru, yn cynnwys cynhyrchiant a lles anifeiliaid, lles a materion ariannol ceidwaid gwartheg, a'r fasnach mewn gwartheg.

Ymhellach, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai dileu BVD yng Nghymru yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y fuches genedlaethol, a hefyd ar gynaliadwyedd a materion ariannol ceidwaid. Er mwyn cyflawni hyn, gwelwyd bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o gyflwyno deddfwriaeth ar ryw ffurf er mwyn gosod gofynion gorfodol ar gyfer cael gwared â BVD. Fodd bynnag, mynegwyd sawl barn wahanol ynglŷn â sut dylid cyflawni hyn. Yn achos yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn cefnogi deddfwriaeth, nid oedd pob un ohonynt yn uniongyrchol gefnogol i ffurf y ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

2.1 Tagio a Phrofi / Sgrinio anifeiliaid

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig y dylai gwartheg sy'n profi'n positif drwy brofion gwrthgyrff weld cyfyngu ar eu symudiadau, oni bai bod y symud hwnnw i'w lladd. Roedd 10 allan o 74 o ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau i'r cwestiwn hwn yn nodi eu bod yn ffafrio system "Tagio a Phrofi", fel y system a geir yng nghynllun BVD Gogledd Iwerddon. Yn y system honno, caiff lloi newydd-anedig, yn cynnwys rhai marw-anedig, eu profi ar gyfer BVD, ac yna cynhelir profion a chyflwynir cyfyngiadau fel bo'r angen. O'r rhain, roedd rhai ymatebwyr yn disgrifio'r system Tagio a Phrofi fel ffordd decach a mwy cost-effeithiol i geidwaid, gan na fyddai'n rhaid iddynt dalu am brofion blynyddol.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall pa mor bwysig yw sicrhau bod gofynion BVD mor gost-effeithiol â phosibl i geidwaid. Er bod y risgiau o ledaenu BVD yn is mewn buchesi caeedig neu fuchesi na phrynir anifeiliaid ar eu cyfer yn rheolaidd, erys y risg o drosglwyddo'r clefyd trwy gyfrwng ffomidau (dillad, cerbydau ac ati) neu gyswllt "dros y ffens" rhwng anifeiliaid. O'r herwydd, bydd pob ceidwad gwartheg yn elwa ar allu dangos bod eu buchesi'n rhydd o BVD.

Mae manteision ac anfanteision i'r dull sgrinio blynyddol Tagio a Phrofi i reoli BVD. Mae'r dull sgrinio blynyddol yn rhoi darlun clir o statws BVD buchesi y wlad, drwy neilltuo statws unigol i bob buches, bydd hyn yn rhoi sicrwydd pellach, unwaith y bydd

buches yn BVD negyddol, bydd y tebygolrwydd bod y feirws yn cylchredeg yn y fuches yn isel¹.

Bydd y gost ar gyfer y ddau dull yn dibynnu ar y math o fuchesi a maint y busnes sy'n cael ei reoli.

Amcangyfrifir bod y gost profi blynyddol ar gyfartaledd gyda buchesau profi gwrthgyrff rhwng £50 a £150 y flwyddyn, yn dibynnu ar pryd mae'r profion yn cael eu cynnal ac ar ffioedd milfeddygfa. Os cynhelir yn ystod ymweliad TB arferol, amcangyfrifir fod y ffi ar gyfer sgrinio blynyddol yn £50 ac, os gwneir hynny fel ymweliad/prawf ar wahân, amcangyfrifir y byddai hyd at £150 (gan gynnwys amcangyfrif o £30 ffi galw allan).

Wrth ystyried y dull Tagio a Phrofi ar gyfer profion BVD, rhaid ystyried y goblygiadau lles ar gyfer gwneud hynny. Ni ellir tagio anifeiliaid yn y glust fwy na dwywaith yn ystod eu hoes gan bod tagio dro ar ôl tro yn cyflwyno risg o niwed a phoen yn y glust. Byddai'r potensial i achosi problemau lles diangen i wartheg gyda tagio clustiau gorfodol yn ystyriaeth sylweddol wrth weithredu system Tagio a Phrofi.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhaglenni dileu clefydau eraill sydd ar waith yn y DU, a bydd y gwersi a ddysgir yn y cynlluniau hyn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf, yn llywio'r dull o brofi ar gyfer y cynllun dileu BVD yng Nghymru.

2.2 Cynllun gwirfoddol

Gwelir bod nifer o'r ymatebwyr o'r farn bod llwyddiant y cynllun gwirfoddol i gael ceidwaid gwartheg i gymeryd rhan yn y cynllun a weithredir gan Gwaredu BVD yn ddigonol i ddileu yr angen am gynllun gorfodol.

Er bod y cynllun gwirfoddol wedi golygu bod llai o achosion o BVD yng Nghymru, ni all fel y mae ar hyn o bryd arwain at ddileu BVD, sef y nod gan Lywodraeth Cymru.

2.3 Prynu anifeiliaid o Loegr

Ceir rhywfaint o bryder ymhlith yr ymatebwyr ynglŷn â'r gwahaniaethau posibl rhwng rheolau BVD Cymru a rheolau BVD gwledydd eraill, yn arbennig Lloegr. Cynhelir cyfarfodydd cydweddu BVD rhwng y gweinyddiaethau er mwyn sicrhau na cheir rhwystrau mawr i gynlluniau yn y dyfodol weithio gyda'i gilydd. Fodd bynnag, cyfrifoldeb ceidwaid unigol fydd dod o hyd i'w hanifeiliaid mewn modd cyfrifol a cheisio sicrwydd bod y gwartheg a brynir o Loegr yn iach, gan nad oes cynllun BVD yno ar hyn o bryd.

¹ Houe et al., 1995

2.4 *Biwrocratiaeth*

Deallwn y pryderon ynglŷn â gofynion y cynllun a'r angen i gyfyngu ar y baich gweinyddol a ddaw i ran ceidwaid gwartheg. Yn anochel, bydd cyflwyno cynllun profi gorfodol yn cynyddu'r gwaith gweinyddol ar gyfer ceidwaid unigol.

Fodd bynnag, trwy weithio'n agos â milfeddygon a thrwy ddilyn canllawiau ar gyfer gweithredu o fewn gofynion y cynllun, dylai'r broses sgrinio BVD fod yn rhwydd i'w dilyn ac ni ddylai amharu rhyw lawer ar y busnes. Y bwriad yw y bydd y cynllun o fudd i bawb sy'n gysylltiedig â'r mater; ac er mwyn i'r cynllun lwyddo, bydd angen i'r gymuned cadw gwartheg, y milfeddygon a chynrychiolwyr y diwydiant ymhél ag ef.

3.0 **Cyfyngu ar symud anifeiliaid**

Pryder y soniwyd amdano yn nifer o'r ymatebion oedd yr angen i gyfyngu ar symud buchesi sy'n profi'n bositif am wrthgyrff BVD. Crybwyllwyd yr effeithiau posibl ar faterion ariannol a llesiant y ceidwaid, yn enwedig pe baent hefyd yn rheoli clefydau eraill ar yr un pryd, megis Twbercwlosis (TB). Rydym yn cydnabod y gall cyfyngu ar symud anifeiliaid effeithio ar fusnesau a pherchnogion busnesau. Pe bai cyfyngiadau o'r fath yn cael eu cyflwyno, rydym yn annog ceidwaid i weithio gyda'u milfeddygon i gwblhau'r gofynion profi angenrheidiol (h.y. Helfeydd PI) fel y gellir canfod a rheoli anifeiliaid PI mewn modd cyfrifol a chael gwared â'r cyfyngiadau cyn gynted â phosibl. Mae'r cynllun gwirfoddol Gwaredu BVD yn parhau i gynnig cyfle i gynnal profion sgrinio gwrthgyrff a Helfeydd PI yn rhad ac am ddim tan 31 Rhagfyr 2022.

Trwy gymryd rhan yn y cynllun gwirfoddol, bydd ceidwaid yn lleihau'r risg o gael BVD yn eu buchesi ac yn lleihau'r risg y bydd cyfyngiadau symud yn cael eu cyflwyno arnynt yn y dyfodol. Bwriedir cynnal cyfnod pontio cyn rhoi'r cynllun gorfodol ar waith yn llwyr er mwyn i geidwaid allu ymgyfarwyddo â'r gofynion newydd pan na fo unrhyw gyfyngiadau ar waith. Bydd canllawiau ar gael er mwyn helpu ceidwaid i weithredu o fewn gofynion y cynllun, a hefyd dylid gofyn i filfeddygon preifat am gyngor fel bo'r angen.

Nod y cynllun yw lleihau'r effaith a gaiff BVD ar fuchesi a cheidwaid ledled Cymru, yn ogystal â chynyddu cynhyrchiant a gwella enillion ariannol. Credwn y bydd yr effaith gyffredinol ar gynhyrchiant gwartheg a lles ceidwaid yn gadarnhaol yn y tymor canolig a'r tymor hir. Gellir lleihau'r effaith yn y tymor byr trwy ymhél â gofynion y cynllun a thrwy reoli anifeiliaid PI yn ddi-oed.

Mae cyfyngu ar symud anifeiliaid yn agwedd hollbwysig ar yr ymdrech i ddileu BVD. Er mwyn lleihau'r risg y bydd y clefyd yn lledaenu trwy ffermydd Cymru, bydd angen rhwystro gwartheg rhag gadael y safle hyd nes y byddant wedi cael prawf cyn symud a hyd nes y bydd y camau angenrheidiol wedi'u cymryd i reoli unrhyw anifeiliaid PI y deuir o hyd iddynt.

Mae modd i anifeiliaid sydd wedi'u heintio dros dro (anifeiliaid TI) ledaenu'r clefyd, ac mae ganddynt y potensial i greu ychwaneg o anifeiliaid PI²³⁴. Rhaid pwysu a mesur hyn wrth ystyried yr angen i gyflwyno cyfyngiadau.

4.0 Profion cyn symud

Roedd mwyafrif bach o 52% o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig y dylid ond symud gwartheg o fuchesi BVD positif neu annegatif oddi ar y safle gyda prawf antigenau cyn symud wedi'i wneud 21 diwrnod cyn eu symud.

Mae swyddogion yn ystyried y gofyniad hwn yn fesur allweddol ar gyfer atal BVD rhag symud oddi ar ffermydd. Yn gyntaf, bydd yn sicrhau nad yw'r anifail a gaiff ei symud oddi ar y fferm yn anifail PI; ac yn ail, bydd yn sicrhau nad yw'r anifail yn anifail TI. Byddai'r naill anifail neu'r llall yn lledaenu'r clefyd i'r 'safle pen y daith'. Heb gynnal profion cyn symud, ni ellir sicrhau na chaiff anifeiliaid BVD positif eu symud ar draws Cymru.

Nodwn y pryder ynglŷn â'r posibilrwydd y gall anifail a gaiff brawf BVD negyddol 21 diwrnod cyn ei symud barhau i gael ei heintio cyn iddo gael ei symud; ond ni ddylai hyn ddigwydd os caiff dulliau cyfrifol, cyflym a bioddiogel eu rhoi ar waith ar gyfer rheoli anifeiliaid PI ac os caiff y risg BVD ar y fferm ei dileu. Y bwriad wrth wraidd gofynion y cynllun yw amddiffyn ffermydd pan fyddant yn derbyn anifeiliaid ond mae'n ofynnol i'r ceidwaid ymhél yn effeithiol â'r cynllun heb unrhyw risg y bydd cyfyngiadau a/neu gosbau pellach yn cael eu cyflwyno. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r amserlen penodedig ar gyfer profi cyn symud.

Ni ellir ystyried canlyniad y prawf antigenau a gynhaliwyd yn ystod y cam Helfa PI fel prawf cyn symud, oherwydd bydd y canlyniad hwn yn cael ei roi o bosibl cyn cymryd unrhyw gamau i ynysu unrhyw anifeiliaid PI ar y fferm, ac yn ôl pob tebyg bydd nifer anghyson o ddiwrnodau'n mynd heibio rhwng canlyniad y prawf a symud yr anifail. Nid ydym o'r farn bod y dull hwn yn ddull teg a chyfrifol o reoli anifeiliaid PI.

Rydym yn credu y byddai profi anifeiliaid cyn eu symud, yn ddull cyson a dibynadwy o sicrhau na chaiff anifeiliaid heintiedig eu symud. Ein barn ni yw y byddai'r dewis arall o ynysu'r anifail heb brofion pellach cyn symud yn peri mwy o risg i drosglwyddo afiechydon a biwrocratiaeth a chymhlethdod pellach i geidwaid.

4.1 Statws antigenau gydol oes

Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr a fyddai'n dderbyniol rhoi statws 'rhydd o BVD' gydol oes i anifeiliaid y cadarnhawyd gan brawf antigenau nad oeddynt yn anifeiliaid PI.

²[World Organisation of Animal Health Chapter 3.4.7 Bovine Viral Diarrhoea](#)

³ Houe, H., Lindberg, A. and Moennig, V. (2006). Test Strategies in Bovine Viral Diarrhea Virus Control and Eradication Campaigns in Europe. *Journal of Veterinary Diagnostic Investigation*, 18(5), pp.427–436. doi:10.1177/104063870601800501

⁴ Tratalos, J.A., Graham, D.A. and More, S.J. (2017). Patterns of calving and young stock movement in Ireland and their implications for BVD serosurveillance. *Preventive Veterinary Medicine*, [online] 142, pp.30–38. doi:10.1016/j.prevetmed.2017.04.005.

Nid ydym yn cytuno â'r cynnig hwn, oherwydd gallai yr anifeiliaid hynny gael eu heintio dros dro a pharhau i ledaenu BVD, yn enwedig os yn cael eu defnyddio i fridio. O gofio bod anifeiliaid PI yn deillio o anifeiliaid TI beichiog, byddai'n anghyfrifol inni ddiystyru'r risg sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid a allai fod yn anifeiliaid TI, nad ydynt wedi cael prawf antigenau ac y gellid, o'r herwydd, eu defnyddio i fridio.

Er mwyn dileu BVD mae'n hanfodol inni reoli anifeiliaid PI y gwyddys amdanynt ond mae hi cyn bwysiced hefyd inni atal creu ychwaneg o anifeiliaid PI. Profion antigenau cynhwysfawr ar ffermydd yn ystod y cam Helfa PI yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau risgiau BVD ym muchesi Cymru.

Nid ydym yn cytuno bod profion ar ôl symud yn ddull mwy effeithiol o leihau'r risg y bydd BVD yn lledaenu, oherwydd byddai'n arwain at gynnal profion ar ôl i'r risg gael ei chyflwyno i'r 'safle pen y daith', o bosibl. Hefyd, byddai o anfantais i geidwaid sy'n prynu anifeiliaid – hynny yw, ni fyddai modd i'r ceidwaid wybod beth yw statws BVD yr anifail cyn iddo gyrraedd eu fferm.

4.2 Buchod 'Trojan'

Rydym yn croesawu'r sylwadau ynglŷn â symud buchod beichiog a allai gael prawf antigenau negatif ond a allai fod yn cario anifail PI. Roedd y pryder yn yr ymatebion yn ymwneud â'r posibilrwydd y gellid ystyried bod yr anifeiliaid hyn yn addas i'w symud, ond y byddent yn arwain at risg BVD arwyddocaol i'r 'safle pen y daith'. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi ychwanegu gofyniad at y cynigion, gan ei gwneud yn ofynnol i geidwaid ynysu buchod beichiog a brynir gan safle heb statws BVD negatif hyd nes y caiff y llo ei eni.

Er mwyn lleihau'r risg ar y fferm, bydd yn ofynnol rhoi prawf antigenau i loi a gaiff eu geni yn y 12 mis ar ôl canfod yr anifail PI diwethaf mewn Helfa PI. Dylid cynnal y prawf hwn o fewn 20 diwrnod o'u geni.

5.0 Talu am brofion

Gwelwn fod mwyafrif yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig y dylai ceidwaid dalu am y profion o dan y cynllun gorfodol.

Rydym yn cydnabod y byddai'r ddogfen ymgynghori wedi elwa ar gynnwys dadansoddiad cost a budd ar gyfer y cynnig hwn.

Mae'r cynllun gwirfoddol Gwaredu BVD wedi cynnig cyfle i geidwaid gynnal profion sgrinio BVD a PI yn rhad ac am ddim. Bydd ymhél yn rhagweithiol â'r cynllun gwirfoddol a dulliau rheoli anifeiliaid PI yn lleihau'r effaith ariannol ar geidwaid pan ddaw gofynion y cynllun yn orfodol.

Mae disgwyl i'r manteision hirdymor – megis cynnydd mewn cynhyrchiant, anifeiliaid iachach a gwell rhagolygon masnach yng Nghymru ac ar draws y byd – fod yn drech o lawer na'r gost o sgrinio a phrofi anifeiliaid er mwyn dangos eu bod yn rhydd o BVD.

O ran cynnal profion rhagweithiol ar gyfer BVD, dylid ystyried hyn fel ffordd o fuddsoddi yn iechyd yr anifeiliaid. Os bydd ceidwaid Cymru yn ymhél ac yn cydymffurfio'n effeithiol â'r gofynion, bydd y costau'n lleihau i bawb trwy gyflymu'r broses o ddileu BVD yng Nghymru.

Dylai'r arfer o reoli BVD ddod yn arfer busnes safonol ar ffermydd Cymru. Dylai'r costau o ran sicrhau bod ffermydd yn rhydd o BVD gael eu hystyried wrth fonitro iechyd buchesi a llunio cynlluniau bioddiogelwch.

5.1 Brechu

Ystyriwyd y pryderon a grybwyllwyd yn yr ymatebion mewn perthynas â chynnwys anifeiliaid wedi'u brechu mewn grwpiau sgrinio BVD blynyddol a'r tebygolrwydd y byddai'r fuches yn cael statws annegatif. Bydd y canllawiau a'r ddeddfwriaeth ar gyfer y cynllun BVD gorfodol yn cynghori ceidwaid yn gryf i sicrhau na fyddant yn cynnwys anifeiliaid y'u brechwyd rhag BVD yn eu grwpiau sgrinio blynyddol.

Dylai ceidwaid wybod beth yw statws iechyd a statws brechu eu hanifeiliaid, a dylid gwneud cofnod o hyn fel y gellir osgoi cyflwyno cyfyngiadau amhriodol ar y fuches. Cyfrifoldeb y ceidwaid fydd gofyn am statws brechu unrhyw wartheg a brynir ar gyfer eu fferm, a'u cyfrifoldeb nhw hefyd fydd cadw cofnodion priodol.

Nid ydym yn argymhell y dylid cymell ceidwaid i beidio â brechu eu hanifeiliaid rhag BVD, oherwydd mae brechu yn ffordd effeithiol o atal y clefyd rhag lledaenu. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn wrth reoli BVD o dan y cynllun profi gorfodol arfaethedig. Gallai cofnodion brechu a gedwir yn amhriodol arwain at gyfyngiadau diangen, gan effeithio ar y fasnach mewn gwartheg ledled Cymru.

6.0 Ynysu anifeiliaid PI

Rydym yn falch o weld bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylid ynysu anifeiliaid PI oddi wrth y fuches am gyfnod amhenodol. Nodwn hefyd fod llawer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai lladd gorfodol yn ddull mwy effeithiol o reoli anifeiliaid PI. Ym marn Llywodraeth Cymru, mater i fusnesau unigol yw penderfynu ar y dull a ddefnyddir i reoli BVD, i'r graddau mwyaf posibl. Bwriad y gofynion yn y cynllun yw lleihau lledaeniad y feirws BVD.

Cyn belled ag y caiff anifeiliaid PI eu hynysu, a chyn belled na fyddant yn peri risg i'r clefyd ledaenu, nid ydym yn credu y byddai'n briodol inni orfodi ceidwaid i ddifa a lladd yr anifeiliaid hyn. Nid yw BVD yn beryglus i iechyd pobl, ac mae modd i anifeiliaid PI gael eu lladd a mynd i'r gadwyn fwyd. Bydd angen i geidwaid unigol bwysu a mesur y risgiau a'r manteision sydd ynghlwm wrth gadw anifeiliaid PI ar eu fferm a rheoli eu hiechyd a'u lles. Am y rhesymau hyn, ni fyddwn yn mynnu y dylid lladd anifeiliaid PI.

7.0 Rheoli data BVD

Roedd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid dangos statws BVD buchesi'n ddiogel i ddarpar brynwyr. Fodd bynnag, nodwn y gallai stigma ddeillio o hyd,

oherwydd gallai ceidwaid gyflwyno BVD i'w fferm yn ddiarwybod trwy symud anifeiliaid neu trwy gyswllt "dros y ffens". Gallai'r math hwn o stigma effeithio ar enw da, lles a rhagolygon masnach y ceidwaid hyn.

Hoffem bwysleisio mai bwriad y cynllun BVD yw cynnig ffordd i geidwaid ddileu BVD o'u buchesi, eu hamddiffyn rhag cyflwyno'r clefyd i'w hanifeiliaid a chyfrannu at ymdrech ar y cyd i fod yn 'rhydd o BVD' – rhywbeth y byddai pob ceidwad yn elwa arno. Credwn yn gryf bod angen i geidwaid gael gwybod beth yw statws BVD anifeiliaid a buchesi cyn iddynt brynu anifeiliaid, ac y dylid gwneud hyn trwy gadw nodau'r cynllun mewn golwg.

Yn achos ceidwad a chanddo fuches â statws BVD positif, dylid ystyried bod y ceidwad hwnnw'n berchennog busnes sy'n ymhél yn onest ac yn ofalus â'r cynllun, ac sy'n anelu at reoli ei anifeiliaid PI a sicrhau statws 'rhydd o BVD'. Rhaid i'r diwydiant fod â rôl weithredol yn y dasg o feithrin diwylliant cefnogol a chydweithredol yn yr ymdrech i ddileu BVD yng Nghymru.

Hoffem dynnu sylw at un peth – yr unig wybodaeth a fydd ar gael i brynwyr fydd gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniad cytbwys ynglŷn â phrynu anifail, a bydd yr wybodaeth honno'n cael ei chyflwyno trwy gyfrwng platfform ar-lein diogel.

8.0 Gorfodi

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno cosbau am fethu â chydymffurfio â'r cynllun. Fodd bynnag, gofynnodd nifer o'r ymatebion a fyddai'r cosbau hynny'n gymesur, a pha un a fyddent yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Ym marn Llywodraeth Cymru, er mwyn dileu BVD ac esgor ar fanteision i bawb mae'n ofynnol i'r diwydiant ymhél yn dryloyw ac yn rhagweithiol â gofynion y cynllun.

Os methir â chydymffurfio â'r cynllun, bydd hynny'n effeithio ar fusnes y ceidwad ei hun, ac ar fuchesi eraill hefyd o bosibl. Felly, mae diffyg cydymffurfio yn fater y dylid ei gymryd o ddifrif, ac efallai y bydd yn rhaid cyflwyno cosbau er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r cynllun a gwneud yn siŵr y cedwir ato.

Ein blaenoriaeth gyntaf, fodd bynnag, fydd helpu ceidwaid i gydymffurfio â gofynion y cynllun a chael arweiniad pan fônt yn ansicr ynglŷn â'r camau gofynnol.

9.0 Casgliad

Rydym yn gwerthfawrogi'r holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Mae'r crynodeb hwn yn cadarnhau ein safbwynt o ran y materion a'r pryderon allweddol a grybwyllwyd. Mae'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cynrychioli nifer o gefndiroedd a buddiannau rhanddeiliaid, a daw ein dadansoddiad i'r casgliad bod y mwyafrif yn gefnogol i'r ddeddfwriaeth arfaethedig fel ffordd o ddileu BVD yng Nghymru.

O ganlyniad, bydd y cynllun fel y'i nodir yn y ddogfen ymgynghori yn parhau i fod yn sail i ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn y maes pwysig hwn mewn perthynas â pholisi clefydau anifeiliaid.